

Adroddiad Ymgynghori

Cam 2 Diweddariad Llwybr Beicio Heol y Gogledd

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cynllun uchod o 5 Awst 2019 tan 30 Awst 2019. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

Anfonwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad i eiddo yn ardal y llwybr, ymgynghoreion statudol a rhanddeiliaid beicio. Arddangoswyd hysbysiadau ar y safle a chyhoeddwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Cafwyd 18 ymateb unigol i'r ymgynghoriad.

Wedi cwblhau'r ymgynghoriad hwn, mae'r diwygiad canlynol wedi'i wneud i ddilyniad y cynllun:

- Mae croesffordd Llwybr Beicio Ffordd y Gogledd a Thaith Taf wedi'i newid i greu ardal sgwâr er mwyn arafu cyflymderau cerbydau wrth iddynt nesáu at y groesffordd

Crynohir y gofidiau a'r sylwadau a dderbyniwyd isod mewn ysgrifen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Sylwadau o blaid

“Hoffwn ychwanegu sawl sylw o blaid Cam 2 Diweddariad Llwybr Beicio Heol y Gogledd. Mae gan y beicffordd ddyluniad perffaith ac mae'n wych gweld bod y ddinas yn buddsoddi'n sylweddol ac yn datblygu trafnidiaeth gynaliadwy o'r diwedd.

“Wedi edrych ar y [cynlluniau ar-lein](#) ar gyfer y beicffordd, roeddwn am gofrestru fy **ngefnogaeth gref** ar gyfer y cynllun sy'n edrych yn wych ac y mae angen mawr amdano”

“Rwy'n defnyddio'n llwybr hwn i feicio i'r gwaith ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau a byddwn yn bendant yn croesawu'r gwelliannau a nodir yn y dogfennau ymgynghori. Hefyd rwy'n hoffi'r ffaith eich bod yn cadw/ailadeiladu'r hen wal, mae'n braf beicio wrth ei hochr.”

“Rwy'n defnyddio'r rhan hon o'r llwybr bob dydd ar y funud, ac rwy'n falch iawn o weld y cynlluniau hyn i'w ddiweddarau. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau'n edrych yn wych, ac mae gen i lond llaw o sylwadau yn unig.

“Rwyf o blaid eich cynigion a'r defnydd mwy o feiciau.”

“Rwy'n hynod o falch o weld y project hwn yn mynd yn ei flaen ar gyfer y rhan allweddol hon o seilwaith rhwydwaith beicio Caerdydd.”

“Mae'r cynigion teithio llesol ar gyfer cam 2 llwybr beicio Heol y Gogledd yn wych ar y cyfan.”

“Rwyf o blaid y cynlluniau i wella'r llwybr dan sylw yn llwyr.”

“Croesewir ymestyn Beicffordd Heol y Gogledd yn fawr ac mae gosod llwybr cerdded ar wahân wrth ei hochr yn ateb da.”

“Yn gyffredinol mae'r cynlluniau'n dda iawn- a bydd y rhain yn gwneud newid cadarnhaol ac enfawr i feicio yn y lleoliad hwn, a'r gwaith o ddechrau cysylltu llwybrau beicio rhwng y seilwaith yng Nghaerdydd sy'n doredig iawn.”

“Yn gyffredinol mae'r cynlluniau'n dda iawn a byddant yn gwneud newid cadarnhaol ac enfawr i feicio yn y lleoliad hwn. Mae'n wych y bydd y beicffyrdd arfaethedig newydd yng Nghaerdydd yn cysylltu sawl llwybr beicio, gan wneud y seilwaith beicio'n llai digyswllt. Diolch yn fawr!”

Llifogydd

“Mae problem gyda llifogydd ar y llwybr cyfredol, yn yr ardal wrth ochr Talybont Court lle mae pwll enfawr yn ymddangos ar ôl y cawod lleiaf, gan rwystro'r holl llwybr (gweler yr atodiad). Er fy mod yn siŵr bod eich peirianwyr yn ymwybodol o'r broblem hon, nid yw'r cynlluniau'n sôn am hyn yn benodol. Byddai'n drueni pe na fyddai modd defnyddio'r llwybr beicio wedi'i uwchraddio oherwydd diffyg gwaith i fynd i'r afael â'r broblem hon!”

“Nodaf o'r llun croestoriad y bydd y beicffordd yn goleddfu i lawr tuag at y wal ychydig. At ddibenion draenio mae hyn, dwi'n cymryd? Dwi ddim yn siŵr pa fath o fesurau draenio sydd ar waith trwy'r wal ei hun, ond mae'r llwybr hwn yn cael ei foddi'n aml ar hyn o bryd, sy'n awgrymu nad yw'n draenio'n dda iawn wrth y wal. Oes modd ymgorffori sianeli draenio rheolaidd yn y wal, neu roi trefniant arall ar waith i leihau llifogydd? Neu oes modd gwneud i'r llwybr oleddfu i'r cyfeiriad arall a chodi'r beicffordd, fel y mae dŵr yn draenio dros y llwybr cerdded ac i mewn i'r coetir? Neu os oes angen codi'r droedffordd, beth am ei rhoi yn erbyn y wal a'r beicffordd ar ochr y coetir fel y gall ddraenio'r ffordd honno? Ar hyn o bryd, pan fo ochr beiciau'r llwybr wedi'i boddi, weithiau mae'n bosibl beicio o gwmpas y pyllau mawr trwy symud at ochr cerddwyr y llwybr. Os caiff y droedffordd ei chodi, ni fydd hyn yn bosibl, felly bydd draeniau iawn yn hanfodol.”

“Mae angen draeniau da iawn gan fod y llwybr yn tueddu i gael ei foddi ar hyn o bryd (yn yr un modd â'r llwybr beicio newydd ei adeiladu ar Heol y Gogledd sy'n cael ei foddi yn agos at chanolfan yr ambiwlansiau hefyd). Mae llif sylweddol yn llifo ar draws y gyffordd rhwng dau nnaer y llwybr hwn a Thaith Taf ar ben Llys Talybont Road pan fo'r tywydd yn wlyb iawn.”

“Mae'r rhan ddeheuol hefyd yn dueddol o gael ei boddi mewn rhannau.”

“DRAENIAU...mae anawsterau draenio yn y rhan rhwng polion lamp rhifau 9 a 10 lle bo dŵr yn casglu ac yn boddi lled llawn y llwybr. Nid oes gyli draenio yn y lleoliad hwn ac oherwydd y ffordd mae'r llwybr yn gostwng, nid yw'r dŵr yn draenio i'r gyli nesaf.”

“Mae llwybr beicio newydd ar Heol y Gogledd (o'r coleg cerddorol/drama i ddechrau'r llwybr newydd hwn) â mesurau draenio gwael iawn. Er bod y llwybr cyfredol yn gogwyddo i fyny ychydig i annog dŵr i symud i ffwrdd o'r maes parcio - nid oes digon o ddraeniau i wneud iddo adael y llwybr beicio. Felly, mae'n cael ei foddi ar hyn o bryd. Allwn ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd gyda'r llwybr newydd hwn?”

“Mae llwybr beicio newydd ar Heol y Gogledd (o'r coleg cerddorol/drama i ddechrau'r llwybr newydd hwn) â mesurau draenio gwael iawn. Er bod y llwybr cyfredol yn gogwyddo i fyny ychydig i annog dŵr i symud i ffwrdd o'r maes parcio, nid oes digon o ddraeniau i wneud iddo adael y llwybr beicio. Felly, mae'n cael ei foddi ar hyn o bryd. Oes modd cywiro hyn gyda'r llwybr newydd hwn?”

Ymateb y Cyngor

Caiff y llwybr beicio ei adeiladu gyda goleddf groes, a fydd yn mynd i'r adael â'r ardaloedd sy'n denu pyllau ar y llwybr ar hyn o bryd.

Caiff yr arwyneb newydd ei adnewyddu gydag arwyneb asffalt mân-dyllog, gan estyn yr ardal athraidd trwy'r coridor a lleihau'r tebygolrwydd o byllau.

Ysgubo / Cynnal a Chadw

“Yn debyg, ar hyn o bryd, mae malurion megis dail wedi gostwng, pridd a sbwriel yn casglu ar hyd y wal, ac mae hyn yn annog planhigion i dyfu. Mewn llawer o leoedd, mae tua chwarter i draean o'r llwybr beicio wedi'i rwystro gan falurion o'r fath. Yn ôl pob tebyg, ni all cerbydau ysgubo fynd yn rhy agos at y wal, felly mae'r malurion hyn yn cael eu gadael i barhau i gasglu. Eto, pe gallai'r beicffordd oleddfu i'r ffordd arall, a chael y llwybr yn draenio tuag at y coetir, dylai hyn helpu i glirio malurion o'r fath, gan y byddent yn cael eu golchi i ffwrdd o'r wal gan y glaw. Neu, a ellir ymrwymo i ysgubo â llaw rheolaidd i sicrhau bod yr ymyl yn cael ei chadw'n glir.”

“Er nad yw'n rhan o'r dyluniad ffisegol, byddai'n ddefnyddiol iawn i ryddhau gwybodaeth am sut y caiff cyfleuster o'r fath ei lanhau a'i gynnal a'i chadw. Rhan o'r broblem gyda'r llwybr cyfredol o'r ganolfan ambiwlansiau yw gan fod y llwybr yn mynd trwy'r coetir lle bod llawer o ddail wedi gostwng sy'n casglu yn erbyn y wal gan greu sribyn gwlyd a mwdlyd. I bob pwrpas mae hyn yn culhau'r lle i bawb ei ddefnyddio ac yn achosi gwrthdaro rhwng pob math o ddefnyddiwr, ni ddylid disgwyl i bobl gymudo ar feic neu ar droed trwy fwd. Mae'r broblem hon yn dod yn fwy difrifol yn yr hydref a'r gaeaf pan fo tywydd gwlyb a dail yn gostwng o leoliad uwch yn culhau'r llwybr fel y mae modd i un person yn unig deithio ar ei hyd.

Gellid helpu hyn trwy ddymchwel y wal yn llwyr gan alluogi anifeiliaid i gymudo trwy'r ardal a dail wedi gostwng i symud o gwmpas yn fwy rhwydd ac efallai i beidio â chasglu ar waelod y wal. Gellir rhoi ffens sydd â bylchau o dano yn lle'r wal. Gellir ystyried draeniau ar hyd y llwybr i helpu gyda sychu'r rhan o'r llwybr o leiaf gan felly'n lleihau pa mor fwdlyd y gall ddod. Yn bwysicaf dylid cychwyn trefn ysgubo er mwyn cadw'r llwybr yn glir. Pe bai rhywun yn dympio llwyth o fwd ar y ffordd gan achosi rhwystr i ran ohoni, byddai'r Cyngor yn ymateb yn eithriadol gyflym i'w glirio gan fod pobl yn deall pa mor bwysig yw cadw'r seilwaith trafniadaeth yn glir. Mae hyn yn seilwaith trafniadaeth hefyd a dylai fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor wrth iddo benderfynu lle i ysgubo, glanhau a grutio. Os yw hyn eisoes wedi'i gynllunio mae hynny'n wych, dywedwch fwy wrthym amdano.

Nid yw gadael manylion allan ynghylch goleuadau a gwaith cynnal a chadw'n fy helpu i benderfynu a ddylwn i feicio ar hyd y llwybr hwn ar gyfer misoedd yr haf yn ystod oriau'r dydd yn unig neu a fydd yn ddiogel a hawdd teithio arno yn ystod gaeaf gwlyb a thywyll. I rai, dyna fyddai'r gwahaniaeth rhwng beicio/cerdded neu yrru i'r gwaith.”

“Byddaf yn defnyddio'r llwybr bob dydd i gymudo i/o'r gwaith ac at ddibenion hamddenol ac mae'r rhan ddeheuol gyfredol yn dioddef sawl broblem. Mae'n aml yn cael ei rwystro gyda dail, canghennau, brigau ac ati felly mae angen trefn ysgubo well i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol. Edrychwch ar y cyflwr cyfredol ar ôl y tywydd gwael. Mae llawer o goed aeddfed wrth y llwybr a uwchraddiwyd felly mae angen cynllunio hyn.

“Mae'r gyliau draenio ar hyd y llwybr y cynigir ei uwchraddio wrth yr hen wal yn cael eu rhwystro'n gyson gan ddail wedi gostwng a gweddillion eraill coed. Wth uwchraddio'r rhan hanfodol oddi ar y ffordd a ddefnyddir yn aml hon o'r rhwydwaith cerdded a beicio, a allai'r

Cyngor sicrhau bod dail a gweddillion coed yn cael eu hysgubo a bod chwyn sy'n tyfu wrth waelod y wal yn cael eu cynnal yn RHEOLAIDD er mwyn sicrhau bod modd defnyddio lled llawn y llwybr?"

Ymateb y Cyngor

Mae amserlen ysgubo rheolaidd wedi'i rhoi ar waith ar gyfer llwybrau, gan gynnwys Cam 1 Heol y Gogledd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi mewn offer i grutio llwybrau oddi ar y ffordd ac mae hyn yn cael ei dreialu yn ystod 2019/20.

Bydden ni'n argymhell bod defnyddwyr y llwybr yn ymwybodol o'n cyngor i bob trigolyn ynghylch gyliau wedi'u rhwystro gan ddail

yma: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrrdd-a-Theithio/Draen-Ffyrrdd/Pages/default.aspx>

Goleuadau / Diogelwch

"Yn debyg, nid yw'r cynlluniau'n cyfeirio'n benodol at uwchraddio'r goleuadau ar y rhan hon o'r llwybr. Er bod rhywfaint o oleuadau, maen nhw'n eithaf gwan a byddai'n drueni pe bai llwybr beicio newydd sbon yn cael ei adeiladu ond bod rhai beicwyr (yn enwedig merched ar eu pennau eu hunain) yn teimlo'n bryderus ynghylch ei ddefnyddio. Gobeithio y gellir ystyried hyn hefyd."

"Oes cynlluniau i newid y goleuadau o gwbl?"

"Mae angen goleuadau gwell ar y llwybr hwn er mwyn iddo gael ei ddefnyddio'n ddifrifol fel llwybr beicio i gymudwyr. Allwch chi roi gwybod a gaiff y goleuadau eu huwchraddio ar hyd y llwybr cyfan fel y mae'n cydymffurfio â'r safonau a nodir yn BS5489-1:2013 + A2:2008, Cod Ymarfer ar gyfer dylunio goleuadau ffordd rhan 1: Goleuadau ffordd ac ardaloedd amwynder cyhoeddus?"

"Nid oes sôn am oleuadau yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr cyfredol heb oleuadau ac mae teithio gyda'r nos felly'n teimlo'n benodol anniogel. Ni ddylai fod yn rhaid i bobl sy'n cerdded a beicio o gwmpas Caerdydd wneud dewis rhwng teimlo'n anniogel ar ffyrdd y ddinas sydd â goleuadau ond y mae cerbydau o bosibl yn goryrru a gyrru'n beryglus arnynt a risg o gael eu mygio/yмосod ar hyn llwybrau tywyll gyda gwyliadwriaeth naturiol ac artiffisial cyfyngedig gan na fydd y Cyngor yn rhoi goleuadau arnynt."

Oes modd gosod goleuadau fel y mae'r llwybr wedi'i oleuo'n dda ac yn teimlo'n ddiogel i'w ddefnyddio ar bob awr o'r dydd, nid yn unig yn ystod oriau'r dydd? Mae digon o enghreifftiau Iseldiraidd o oleuadau ar feicffyrdd oddi ar y ffordd sy'n gweithio mewn cytgord â chynefinoedd ecolegol sensitif y maen nhw'n mynd trwyddynt/agos atynt. Mae enghreifftiau'n cynnwys goleuadau isel nad ydynt yn ymyrryd â chymudo ystumod a fyddai'n digwydd yng nghanopi'r goeden a goleuadau â synhwyrdd symudiadau sy'n gweithio ond pan fo rhywun yn teithio ar hyn rhan benodol o llwybr. Beth am gyflawni hyn yn y DU?

"Byddwn i'n meddwl y bydd angen uwchraddio goleuadau ar hyd y llwybr. Byddai hyn yn amlwg yn gwneud y llwybr yn fwy deniadol i feicwyr nerfus ac yn helpu gyda diogelwch personol. Mae'n bosibl y gellir ymgorffori goleuadau yn nyluniad yr arwyneb."

"Nid oes sôn am oleuadau neu nodweddion diogelwch eraill ar hyd y llwybr. Mae'n bwysig bod y llwybr yn teimlo mor ddiogel â phosibl i gerddwyr/beicwyr unigol, o ystyried y ffaith ei

fod â diffyg lle amddiffynadwy, nad oes modd ei weld o'r ffordd a'r lefelau cyfredol o drosedd/canfyddiad o berygl ar hyd y rhan hon. Hebddynt, bydd pobl yn parhau i ddefnyddio Heol y Gogledd. Pa welliannau wedi'u cynllunio i ddiogelwch personol ar hyd y llwybr?"

"Mae'r syniad o'r lôn feicio hon yn syniad da iawn er rwy'n gobeithio y caiff y ffactorau canlynol eu hystyried:

1. llwybr wedi'i oleuo'n dda iawn
2. tcc ar hyd y llwybr cyfan wedi'i gysylltu â'r heddlu, i ychwanegu at ddiogelwch trigolion Caerdydd ac ymwelwyr â hi"

Ymateb y Cyngor

Caiff goleuadau eu huwchraddio ar hyd y llwybr yn rhan o'r cynllun hwn, a byddant yn bodloni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer goleuo'r briffordd fabwysiedig.

Dylai lledu'r llwybr a gwella'r goleuadau stryd helpu i wneud i'r llwybr deimlo'n fwy diogel i bob defnyddiwr.

Llysiâu'r Dial

"Nodaf fod Llysiâu'r Dial mewn lleoedd ar hyd y beicffordd arfaethedig yn benodol yn agos at gylchfan Tesco / Excelsior Way a hefyd yn agos at Neuadd Chwaraeon Llys Talybont, ac y bydd angen triniaeth go iawn er mwyn osgoi niwed i'r llwybr beiciau newydd."

Ymateb y Cyngor

Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol bod Llysiâu'r Dial mewn lleoliadau penodol ar hyd y llwybr ac mae cynllun triniaeth ar waith. Hefyd, caiff y llwybr ei adeiladu gyda rhwystr llysiâu'r dial o dan ei arwyneb mewn rhannau y gwybyddir bod llysiâu'r dial wedi'u gweld ynddynt.

Pryderon am yr effaith ar y parc

"Rwy'n defnyddio'r llwybr beicio bob dydd er mwyn cymudo ac rwy'n dwlu arno, mae'n tawelu'r meddwl, mae'n ddeiliog ac mae'n wyrdd. Rwy'n bryderus iawn am y syniad o wthio llwybr glas llachar 6m trwy'r coetiroedd, tra'n dymchwel waliau a choed. Rwy'n meddwl y byddai hyn yn ddinistriol. Rwy'n sylweddoli bod sawl pwynt pinsio y gellir eu gwella a hefyd cysondeb o ran "yw hyn wedi'i rannu neu ar wahân?" a fyddai'n ei gwneud yn fwy cyfforddus i gerddwyr a beicwyr. Neu, gadewch i'r llwybr fod. Mae'n braf beicio ar llwybr mwy esmwyth heb byllau ond dwi ddim yn hoffi glas gorliwgar y llwybr beicio newydd."

Ymateb y Cyngor

Fel arfer defnyddir arwyneb glas ar lwybrau Beicffordd ond mewn lleoliadau o wrthdaro posibl â cherbydau modur. O ganlyniad i natur y llwybr trwy barcdir, lle na cheir llawer o ryngweithio â cherbydau modur, ni chaiff arwyneb glas ei ddefnyddio.

Mae'r cynllun wedi'i greu i sicrhau na fydd angen torri unrhyw goed er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

Ni chaiff unrhyw ran o'r parc hanesyddol cyfredol ei ddymchwel yn rhan o'r cynllun, ond caiff un rhan ar goll o'r wal ei hail adeiladu, gan alluogi gwaredu rhan o reiliau metel a fyddai fel arall yn atal gweledd ar y llwybr.

Pryderon am ddull o wahanu

"Rwy'n poeni am y cwrbyn sydd wedi'i gynllunio i wahanu'r ddwy ran. Mae gan fy nhad broblem gyda'i lygaid sy'n ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng lliwiau tebyg. Mae'n ei chael hi'n anodd gweld camau bach a chyrbau, yn enwedig os yw'n uwch na nhw. Sylwaf y byddai'r cerddwyr uwchben y croesdoriad. Ydych chi wedi ymgynghori â nifer sylweddol o bobl sy'n rhannol ddall i sicrhau nad ydych yn creu perygl difrifol iddynt? A fyddai rheiliau yn ateb gwell iddynt?"

"Mae'r croesdoriad nodweddiadol yn awgrymu gwahanu'r llwybr beicio a'r llwybr i gerddwyr gyda chwrbyn ar oledf. Dyma berygl posibl i feicwyr os ydynt yn cael eu gorfodi i ddefnyddio'r llwybr cerdded oherwydd rhwystr. Gallai hefyd annog cerddwyr i ddefnyddio'r llwybr beicio. Gallai'r gwahanu a defnyddiwyd yng Ngham 1 fod yn fwy priodol."

Ymateb y Cyngor

Bydd y dull o wahanu'r un peth a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 y llwybr trwy faes parcio Heol y Gogledd.

Mae defnyddio cwrbyn i wahanu troedffordd a llwybr beicio yn driniaeth safonol sy'n darparu lefel debyg o wasanaeth â chwrbyn yn gwahanu troedffordd o lôn gerbydau.

Mae angen ymgyrch addysg ar ddefnydd a rennir

"Mae cerddwyr (ac ar adegau gerbydau) yn defnyddio'r llwybr beicio heb ystyried beicwyr felly byddai rhaglen wybodaeth/addysg i gerddwyr ar sut i ddefnyddio lleoedd a rennir (h.y. 5 cerddwyr ddim yn cerdded ochr yn ochr ar hyd llwybr a rennir tra'n gwisgo clustffonau; peidio â thafodi beicwyr sy'n pasio) yn annog mwy o feicwyr i ddefnyddio llwybrau beicio/lle a rennir."

Ymateb y Cyngor

Mae Cod Ymarfer ar gyfer pob defnyddiwr llwybr a rennir trwy Barciau a llwybrau beicio oddi ar y ffordd eraill ar waith i annog pawb i barchu defnyddwyr eraill.

Dylid blaenoriaethu cynlluniau eraill

"Byddwn yn awgrymu bod Cyngor Caerdydd yn gwneud diogelwch beicio ar ffyrdd yn flaenoriaeth. Gyrru diystyriol a hyd yn oed ymosodol yw'r peth mwyaf sy'n atal beicwyr."

"Pam rydych yn bwriadu treulio cymaint o arian ar wahanu cerddwyr a beicwyr yma pan, ymhellach i fyny'r llwybr beicio (o gwmpas Clinig Gabalfa), fo'r llwybr yn gul ac nad oes llinell wen hyd yn oed i wahanu'r ddau? Ymhellach i lawr y llwybr rwy'n ei ddefnyddio (yn Heol Eglwys Fair), disgwylir i'r beicwyr feicio'r ffordd anghywir i lawr rhan unffordd a ddefnyddir gan yrwyr tacsis! O gwmpas y RCMD, ar fy ffordd allan o'r dref, dwi bob amser yn colli'r llwybr beicio ac yn cael fy hun yn beicio dros twmpathau! Efallai y gallai cynllunwyr y dref feicio hyd cyfan y llwybr beicio a chanolbwyntio ar y rhannau hynny lle mae'r llwybr lleiaf diogel? Roeddwn i'n gobeithio bod y cynlluniau ar gyfer y llwybr beicio cyfan ac yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau difrifol megis arwyddion a gwahanu ac ansawdd yr arwyneb. Dwi wedi fy siomi'n fawr bod y cynlluniau ar gyfer rhan mor fach ac y gallent ei wneud yn llai diogel i rai defnyddwyr. Cewch wared â'r cynlluniau hyn a chanolbwyntio ar drwsio'r

ceubyllau yn ein ffordd (yn benodol y rhain hynny sy'n 1-2' o' cwrbyn) sy'n gwneud beicio arferol o gwmpas strydoedd y ddinas mor beryglus"

Ymateb y Cyngor

Bydd y cynllun hwn yn uwchraddio rhan ddefnyddiol y rhwydwaith beicio cyfredol sy'n boblogaidd iawn gyda chymudwyr sy'n beicio a cherdded - gwaith sydd ei angen yn fawr. Bydd gwahanu'n gwella cyfleusterau i bob defnyddiwr y llwybr, gan wella capasiti ac amodau ar gyfer llwybr gogledd-ddeheuol allweddol.

Pryderon ynghylch mynediad i feicwyr / gwyradau yn ystod y cyfnod adeiladu.

"Er fy mod yn croesawu'r gwelliannau cam 2 arfaethedig i Heol y Gogledd hoffwn i gadarnhau beth fyddai'r llwybr gwyro ac am faint y bydd y gwaith arfaethedig yn para.

Byddaf yn defnyddio'r llwybr hwn a Thaith Taf yn rheolaidd i gyrraedd Tesco. Er rwyf yn cyrraedd Tesco o Daith Taf trwy ddefnyddio'r grisiau a'r A48, rwy'n ei chael yn amhosibl dychwelyd y ffordd hon. Gyda fy masgedi'n llawn gyda siopa o Tesco, mae'r goleddf o'r A48 i Daith Taf yn llawer rhy serth i'w defnyddio'n ddiogel. Wrth drïo dod i lawr y goleddf gyda'r siopa ar gefn y beic ac ond yn gallu cyrraedd brêc blaen, mae'r olwyn gefn yn llithro ac mae'r beic wedyn yn unionsyth ac rwy'n trio peidio â chwympo i lawr y grisiau.

O leiaf y gallaf i fynd i fynyr goleddf, gyda beic cargo, cadair wthio neu gadair olwyn, nid yw'r llwybr hwn yn hygyrch."

Ymateb y Cyngor

Bydd rhywfaint o darfu yn ystod gwaith adeiladu'r cynllun, ond rydym yn disgwyl i'r contractwyr gynnal llwybr trwy'r safle yn ystod y gwaith adeiladu i sicrhau na fydd angen gwyrriad llwybr hir.

Rhwystrau ar y llwybr

"Ar hyn o bryd mae lluoedd o rwystrau ar hyd y llwybr gyda rhwystrau allanol wedi'u dylunio i atal cerbydau modur rhag mynd ar y llwybr oddi ar y ffordd a rhwystrau mewnol sydd hefyd wedi'u dylunio i wneud hyn ond maen nhw'n anghyfleuster i bobl sy'n cerdded ac yn beicio heb reswm go iawn. Dylai mesurau atal mynediad cerbydau modur fod wrth y pwyntiau mynediad o'r ffordd h.y. dylai rhwystrau allanol a'r rhai mewnol gael eu symud yn llwyr gan eu bod yn achosi gwrthdaro rhwng pobl sy'n beicio a phobl sy'n cerdded pan y gellir osgoi hyn."

"Mae'r cynllun yn nodi symud y giât ar hyd y llwybr beicio, yn agos at y gyffordd â Thaith Taf (t.5). Ystyriwch symud y giâtiau cyfagos ar Daith Taf hefyd. Nid yw'r cynlluniau'n sôn am y giât ar ben Tesco y llwybr beicio. A gaiff hon ei symud hefyd?"

"Mae'r llwybr beicio newydd wedi symud y giât/bolard wrth faes parcio'r ganolfan ambiwlansiau - mae hyn yn wych os felly, gan ei fod yn cyfyngu ar feicio. Cadwch at y cynlluniau hyn a sicrhau na orfodir i gerddwyr gerdded ar y llwybr beicio er mwyn mynd o gwmpas y giât oedd arfer bod yma. [...] Mae'n ymddangos bod y 2 rwystr cyfredol ar Daith Taf wedi'u colli o'r ymgynghoriad hwn - er eu bod yn rhan o'r rhan hon o Daith Taf. Dylid hefyd rhoi bolardiau y gellir eu symud yn lle'r rhwystrau hyn yn yr un modd â'r giât y mae ymgynghoriad arni.

“Mae’n ymddangos bod y 2 rwystr cyfredol ar Daith Taf wedi’u hepgor o’r ymgynghoriad hwn - er eu bod yn rhan o’r rhan hon o Daith Taf. Dylid rhoi bolardiau y gellir eu symud yn lle’r rhwystrau hyn.”

“Mae llawer o drafodaeth wedi bod ar rwystrau ffisegol ar draws y llwybrau’n cael eu huwchraddio ac mae’n dda gweld cynigion i symud y rhain. Os oes angen i unrhyw fath o rwystr aros wedyn byddai bolardiau y gellir eu symud yn yr ardal gyfagos â’r orsaf nextbike cyfredol yn gweithio’n dda ac yn atal pobl rhag gyrru ceir i lawr y rhan hon fel sy’n digwydd ar hyn o bryd. Rhaid i bob rhwystr gael ei ddylunio y gall beiciau safonol megis treiciau, beiciau cargo, cadeiriau olwyn a phramiau fynd trwy’r lle heb orfod stopio a negodi’r lle tyn. Os oes rhaid gosod rhwystrau, ni ddylent arwain cerddwyr a phobl sy’n reidio beiciau at wrthdaro fel sy’n digwydd ar hyn o bryd ar y rhan hon.”

Ymateb y Cyngor

Caiff pob giât ar y llwybr ei symud a chaiff bolardiau eu rhoi yn eu lle i atal mynediad anawdurdodedig gan gerbydau.

Dylai arwyddion gael eu gwella

“Fydd arwyddion newydd yn cael eu cynnwys yn y gwaith uwchraddio? Hynny yw, adnewyddu arwyddion Taith Taf NCN8 yn benodol wrth y gyffordd wrth y bwthyn, a dwyn ar y cyfle i gyfeirio pobl at Eglwys Gadeiriol Llandaf, Tesco/Aldi/siopau Gabalfa, ac wrth deithio i’r de/dwyrain i Bontcannau a Thaith Taf NCN8 i’r Bae?”

Ymateb y Cyngor

Caiff arwyddion cyfredol eu hadolygu.

Dylai’r droedffordd fod yn fwy llydan

“Awgrymu nad yw llwybr cerdded 2m o led yn ddigon llydan - mae’r llwybr hwn yn cael ei ddefnyddio’n helaeth gan fyfyrwyr sy’n dueddol o gerdded mewn grwpiau mawr - os yw’n bosibl o gwbl, dylid gwneud hyn yn fwy llydan - dylai’r amgylchedd yn y lleoliad hwn ganiatáu llwybr cerdded ehangach heb gulhau’r llwyr cerdded.”

“Ydy llwybr cerdded 2m o led yn ddigon llydan? Mae’r llwybr hwn yn cael ei ddefnyddio’n fawr gan fyfyrwyr sy’n dueddol o gerdded mewn grwpiau mawr. Os yw’n bosibl o gwbl, dylid gwneud hyn yn fwy llydan - dylai’r amgylchedd yn y lleoliad hwn ganiatáu llwybr cerdded ehangach heb gulhau’r llwyr cerdded.”

Ymateb y Cyngor

Mae llwybr cerdded 2m o led yn bodloni gofynion Canllaw Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Mae data arolygon cerddwyr yn awgrymu bod y safon hon yn ddigonol ar gyfer lefelau cyfforddusrwydd cerddwyr o ystyried y llifau cyfredol o gerddwyr.

Blaenoriaeth wrth y Ganolfan Ambiwlansiau

“Dylai’r llwybr gael ei ddylunio fel y rhoddir blaenoriaeth i bobl sy’n cerdded ac yn beicio yn hytrach na’r cynigion cyfredol sy’n gwneud i feicwyr ildio yn lle hynny. Nid oes senario lle bo

trefn arwyddion o'r fath yn gwneud i draffig modur ar ffyrdd ildio'n swyddogol wrth gyffordd neu dramwyfa i ganolfannau cerbydau brys ac ni ddylai hyn fod yn berthnasol yma chwaith.

Trefn fwy priodol fyddai gosod arwyddion ildio i draffig groesi'r lôn feicio ac os yw'r Cyngor yn teimlo bod angen, sgwâr melyn i nodi dim aros yn y man croesi er mewn gwirionedd ni fydd beicwyr yn aros yma gan na fydd tagfeydd gan feiciau'n rhwystro'r mynediad yma. Yr unig draffig sydd angen "blaenoriaeth" megis mynediad at y ganolfan ambiwlansiau ydy cerbydau â goleuadau glas sy'n fflachio. Ni fydd y rhyngweithio rhwng y cerbydau penodol hyn a beiciau'n newid gan ei bod ar y ffordd h.y. byddai beicwyr naill ai'n stopio i adael iddynt fynd neu'n symud allan o'r ffordd os ydynt eisoes yno. Nid oes angen am arwyddion ffordd ffurfiol i reoli'r ymddygiad hwn, fel arall byddai arwyddion ildio'n unionsyth â thramwyfeydd pob gorsaf heddlu, tân ac ambiwlans yng Nghymru. Wrth edrych yn gyflym ar Google Maps, nid oes unrhyw rai yng Nghaerdydd.

Mae gwerth ychwanegol galluogi pobl i deithio ar feiciau neu ar droes yn barhaus heb orfod stopio yn fwy na gwerth ychwanegol gosod arwyddion i reoli ymddygiad sydd eisoes yn digwydd ac a fydd yn parhau i ddigwydd heb orfod ildio'n swyddogol wrth arwyddion. Gall cerbydau heb oleuadau glas yn fflachio sy'n nesáu/gadael y ganolfan ambiwlansiau ildio fel y byddent wrth groesfan y feicffordd i mewn i Barc Bute i'r de o'r lleoliad yma. Mae'r gyffordd mor debyg i gyffordd Parc Bute y byddai'n ddryslyd cael trefniadau blaenoriaeth gwahanol. Nid oes diben rhoi blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded a beicio wrth groesfan/cyffordd Parc Bute i wedyn ddileu'r flaenoriaeth honno wrth y ganolfan ambiwlansiau."

"Nodaf fod y cynllun ar gyfer y ganolfan ambiwlansiau'n dangos bod angen i draffig y feicffordd ildio ar gyfer mynedfa fach. Y ffordd arall y dylai hyn fod, rwy'n credu'n gryf y dylid newid hyn. Y feicffordd ddylai fod y prif lwybr a dylai cerbydau sy'n croesi i/o'r ganolfan ambiwlansiau ildio ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Rwy'n siŵr, pe bai cerbydau â goleuadau glas sy'n fflachio'n gadael, y byddai cerddwyr a beicwyr yn ildio. Mae mesurau rheoli traffig cyfredol yn ystod digwyddiadau wrth fynedfa Colum Road i'r parc wedi bod yn nonsens llwyr ac mae wedi'i gwneud yn fwy peryglus i feicwyr.

Ymateb y Cyngor

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod llwybrau beicio ar ein llwybrau newydd yn cael blaenoriaeth ar ffyrdd ymyl a mynedfeydd cymaint ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd y defnyddir y fynedfa hon gan gerbydau brys, mae bob amser angen i bobl sy'n nesáu at y fynedfa ar y llwybr beicio nesáu ati'n ofalus. Felly, ni chaiff y flaenoriaeth yn y lleoliad hwn ei newid yn rhan o'r cynllun hwn.

Pryderon ynghylch cyswllt defnydd a rennir â Colum Road

"Gellir gwella'r ardal defnydd a rennir â mynediad at Colum Road fel y bydd ganddi fannau penodol ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Mae bob amser yn ymddangos bod ardaloedd defnydd a rennir yn cael eu dewis fel datrysiad pan fo gwrthdaro. Ond nid ydynt yn ddatrysiad - maen nhw'n cynnal y gwrthdaro a'r ansicrwydd."

Ymateb y Cyngor

Dyma gyswllt byr i gysylltu â throedffordd defnydd a rennir a chroesfan Twcan. Ni fyddai'n bosibl lledu'r cyswllt hwn i'r lled angenrheidiol i greu llwybr ar wahân heb effeithio ar goed. Hefyd, byddai dal angen i feicwyr sy'n teithio tuag at Colum Road ildio ar gyfer cerddwyr sy'n croesi'r cyswllt hwn. Felly ni ystyrir y byddai gwahanu'r cyswllt byr hwn yn creu digon o fanteision i gyfiawnhau symud coed.

Gwelededd gwael trwy wal derfyn Parc Bute wrth y croestoriad â Thaith Taf

“O ran y gyffordd llwybrau lluosog ger Talybont (ar dudalen 3 y pdf), nid yw’n glir o’r lluniau a ai’r bwriad yw cadw’r twmpath (yn ôl pob tebyg hen bont camlas?) lle bo Llys Talybont yn ymuno â’r llwybrau, neu a ellir lefelu hyn neu’i ostwng ychydig. Cyffordd ddall yw hon yn y bôn, ond er mwyn mynd dros y twmpath mae angen i feicwyr fynd yn eithaf cyflym, ac mae’n eithaf anodd llywio pobl sy’n crwydro dros y lle heb edrych. Ar hyn o bryd mae hyn yn gyffordd letchwith, ac o ystyried y gwaith arfaethedig hwn, mae’n ymddangos bod hyn yn gyfle perffaith i drïo i wella hyn. Os nad oes modd gostwng y twmpath, allen ni o leiaf gael goleuadau gwell, arwyddion mwy clir, efallai drychau i’n helpu i weld yn well?”

“Nid yw cynigion y cynllun yn dangos unrhyw newidiadau i’r pwyntiau mynediad ar yr ardal defnydd a rennir a drafodir uchod. Os yn teithio o’r gored i Llys Tal Y Bont Road ac yn defnyddio’r ardal defnydd a rennir, mae’r wal tal yn creu man dall mawr sy’n anodd ei oresgyn. Ni allwch uno â’r llwybr ac yn bod yn sicr nad yw rhywun arall eisoes yn beicio ar y llwybr. Oes modd dymchwel rhan o’r wal hwn er mwyn gwella gwelededd?”

“Y gyffordd â Thaith Taf (t.3). Mae hyn yn dioddef o welededd gwael o ganlyniad i’r wal uchel, sy’n berygl oherwydd y llethr. Pa gynlluniau sydd gennych i leihau’r perygl hwn?”

Ymateb y Cyngor

Nid yw newidiadau i’r wal yn bosibl gan ei fod yn rhan o wal terfyn parc hanesyddol.

Mae’r dyluniad wedi’i newid i greu ardal sgwâr lle bo’r ddau lwybr yn croestorri, a fydd yn cynnig rhywfaint o wyro i feicwyr sy’n croesi rhwng y ddau lwybr, gan leihau cyflymderau wrth nesáu.

Mae’r llwybr beicio’n pontio i ddefnydd a rennir i’r de o gyswllt y llwybr â’r Gored Ddu, gyda beicwyr sy’n teithio i’r gogledd a fydd yn teithio’n agosaf at y wal terfyn yn gorfod ildio ar gyfer y ardal defnydd a rennir.

Ni ddylai’r ramp wrth nesáu at Llys Tal y Bont Road yn un defnydd a rennir

“Byddai’n ddefnyddiol lefelu’r rhiw rhywfaint lle oedd pont y gamlas yn cael ei defnyddio wrth Llys Talybont Road. Gall tagfeydd waethygu yn y lleoliad hwn o ganlyniad i bobl yn arafu’n gyflym - yn enwedig y rhai sy’n teithio tua’r de o Daith Taf hyd at y llwybr hwn gan arwain tua Heol y Gogledd ac mae’r damweiniau’n digwydd oherwydd traffig yn cyflymu yn y cyfeiriad arall i lawr y rhiw gan gwrdd â thraffig ar Daith Taf.

“Ramp defnydd a rennir Mae’n annerbyniol gadael yr ardal hon fel y mae hi. 3m yw’r swm lleiaf ar gyfer cyfleusterau a rennir. Fel yr uchod, defnyddir hyn gan lawer o fyfyrwyr sy’n cerdded i/o neuaddau/lleoliadau astudio. Mae’r ramp hefyd yn arafu beicwyr araf/nerfus yn fwy oherwydd y goleddf - mae peidio â gwneud gwaith lledu yn y lleoliad hwn yn eithriadol o siomedig.”

Ymateb y Cyngor

Nid yw adnewyddu’r strwythur sy’n rampio i fyny tuag at Llys Tal y Bont Road yn berthnasol i’r cynllun hwn oherwydd costau adnewyddu’r strwythur, cyfyngiadau tir, a’r effaith ar goed presennol.

Ni ddylai'r croestoriad rhwng Taith Taf a'r Llwybr Beicio fod yn un Defnydd a Rennir

“Gellir gwella ardaloedd defnydd a rennir yn sylweddol er mwyn cynnal y mannau cerddwyr a beicwyr ar wahân pe bai cynllun mwy creadigol wedi'i ariannu'n llawn yn rhan o'r gwaith. Pam mae bob amser rhaid defnyddio'r ateb hawdd a dweud bod rhaid iddo fod yn ddefnydd a rennir - nid yw hynny'n wir! Mae hyn yn berthnasol yn benodol pan fo'r cynllun yn rhannu'n ddau (ger Talybont) ac wedyn yn ailuno heb reswm. Mae'r ardal rhwng y ddau lwybr yn dir diffaith, felly beth am eu huno ac ymestyn y feicffordd a'r llwybr cerdded?”

“Mae'r dyluniad cyfredol yn creu lle a rennir lle bo'r lle yn culhau sydd yn ddadleuadwy yn ddyluniad sy'n creu gwrthdaro. Mae hyn yn benodol berthnasol gan fod yr ardal hon yn debygol o brofi'r symudiadau mwyaf gan ei bod hefyd yn caniatáu symudiadau o'r dwyrain i'r gorllewin o Llys Tal Y Bont Road i'r bont ger y gored gyfagos. Mae cymaint o'r cynllun yn cynnwys lledu llwybrau cyfredol a ffurfioli gwahanu cerddwyr a beicwyr ac felly dylai hyn ddigwydd ymhobman yn hytrach na dewis lle a rennir pan fo llwybrau'n mynd yn gul a phan fo'n fwy anodd adeiladu.”

“Gallaf ddeall yr angen am le a rennir yn agos at ran Tal-y-bont. Fodd bynnag, pe bai'r uwchraddio yn llwyddiant, a bod llawer o bobl yn beicio, gallai hyn ddod yn wrthdrawiad go iawn a dylid ei drafod eto ar ddiwrnod yn y dyfodol”

Ymateb y Cyngor

Mae dyluniad y rhyngwyneb rhwng y llwybr beicio a Thaith Taf wedi'i gyfyngu gan wahaniaeth gwastad rhwng y ddau lwybr a lleoliad coed. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, bydd angen i bob llwybr fod yn un defnydd a rennir.

Bydd beicwyr sy'n ddefnyddio'r llwybr beicio o Faes Parcio Heol y Gogledd i deithio yn ôl ac ymlaen o Excelsior Road yn gallu osgoi'r rhyngwyneb gyda Thaith Taf trwy ddefnyddio'r llwybr i'r dwyrain.

Mae'r gyffordd rhwng y llwybr beicio a Thaith Taf ei hun wedi'i haildylunio i fod â siâp sgwâr, a fydd yn lleihau cyflymderau wrth nesáu ar gyfer defnyddwyr y llwybr sy'n teithio ym mhob cyfeiriad.

Problemau gyda cherbydau sy'n mynd ar lwybr a rennir o Llys Tal y Bont Road

“Hefyd oes modd cal arwyddion cliriach a/neu sawl bolard ar gyfer cerbydau ar waelod Llys Talybont - ceir achlysuron rheolaidd pan fo pobl yn gyrru dros y twmpath ac yn gyrru ar y llwybr a rennir, cyn iddynt sylweddoli eu camgymeriad ac yn trio gyrru'n ôl.

Ymateb y Cyngor

Caiff arwyddion ar waelod Llys Tal Y Bont Road eu hadolygu i sicrhau ei bod yn glir y caniateir mynediad i gerbydau at ddibenion mynediad yn unig.

Agosáu at Excelsior Road

“Y rhan olaf - nid wyf yn siŵr pam mae rhai i feicwyr ildio ar gyfer ardal defnydd a rennir - pam nad ydyn nhw'n cael eu tywys i'w cyrchfannau?”

Ymateb y Cyngor

Bydd angen i feicwyr fod yn ofalus o gwmpas cerddwyr sy'n defnyddio'r droedffordd wrth agosáu at y groesfan sebra gyfochrog.

Ymestyn y llwybr i'r gogledd o Excelsior Road

“Pan fo'r llwybr yn ymuno ag Excelsior Road wrth y gylchfan - beth yw'r cynlluniau i barhau â'r llwybr beicio dynodedig i Gabalfa?”

Ymateb y Cyngor

Mae cynllun i wella amodau ar gyfer beicio ar Gabalfa Avenue wedi'i gynnwys ar ein Map Rhwydwaith Integredig, cyfeiriad cynllun 132. Mae hyn â blaenoriaeth i gael ei gyflawni yn y tymor canolig (5-10 mlynedd nesaf).

20 Ionawr 2020